IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

NOSC 2026 Rhif 196

PRIFFYRDD

Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City)) 2026

Gwnaed	***5 Tachwedd 2026***
Yn dod i rym	***19 Tachwedd 2026***

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn "yr awdurdod caffael") yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(**2**), a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r ddeddf honno, a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 o erthygl 2 at ddiben:

(a) adeiladu darn newydd o gefnffordd a disodli pont dros ddyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy yng Nghymunedau Queensferry a Sealand yn Sir y Fflint yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd y cyfeirir ato yn Erthygl 6 fel a ganlyn:

(i) o bwynt i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gefnffordd bresennol ac i'r de-orllewin o lan dde-orllewinol dyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy, yng Nghymuned

(1) 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) 1981 (p. 67).

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

NWSI 2026 No. 196

HIGHWAYS

The Welsh Ministers (The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Queensferry Interchange to Garden City Improvement)) Compulsory Purchase Order 2026

Made	***5 November 2026***
Coming into force	***19 November 2026***

The Welsh Ministers (in this Order called "the acquiring authority") make the following Order.

1. Subject to the provisions of this Order, the acquiring authority is, under sections 239, 240, 246, 250, 254 and 260 of the Highways Act 1980(**1**) and under section 2 of, and paragraph 1(1)(b), (3) and (4) of Part 1 of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981(**2**) and all other enabling powers, hereby authorised to purchase compulsorily the land and the new rights over land described in paragraph 2 of article 2 for the purpose of:

(a) the construction of a new length of trunk road and a replacement bridge over the navigable waters of the River Dee in the Communities of Queensferry and Sealand in the County of Flintshire in pursuance of the Trunk Road Order referred to in Article 6 as follows:

(i) from a point south east of the centre point of the existing trunk road and south west of the south western bank of the navigable waters of the River Dee, in

(1) 1980 (c. 66). By virtue of S.I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) 1981 (c. 67).

Queensferry, ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt i'r de ddwyrain o ganolbwynt y gefnffordd bresennol i'r gogledd-ddwyrain o lan ogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy, yng Nghymuned Sealand i gynnwys llwybr beiciau dwyffordd (â hawl tramwy ar droed) a llwybr Mynediad Cynnal a Chadw sy'n hanfodol i gefnffordd yr A494 yn rhedeg ar hyd ei ochr dde-ddwyreiniol;

(b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd rhwng Cyfnewidfa Queensferry a Garden City, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl y cyfeirir ato yn erthygl 6;

(c) gwella'r gefnffordd, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd;

(d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod;

(e) darparu adeiladau a chyfleusterau i'w defnyddio mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio a chynnal y gefnffordd;

(f) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r gwaith gwella priffyrdd hwnnw a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac

(g) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth neu ddefnydd o unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu hadeiladu neu eu gwella ar eu hamgylchoedd yn y Cymunedau a enwyd ac, mewn perthynas â'r effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth y gefnffordd newydd o ran dileu ac effeithio'n andwyol fel arall ar ardal gynefin bresennol ar lannau Afon Dyfrdwy, rhoi ardal gynefin arall yn ei lle ar lan dde-orllewinol Afon Dyfrdwy yng Nghymunedau Tref Shotton a Thref Cei Connah, i gyd yn y Sir a enwyd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r planiau cysylltiedig wedi eu hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn.

2.—(1) Y tir yr awdurdodir ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlenni cysylltiedig ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ag ymyl coch ar y map y lluniwyd dau gopi ohono, ac sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa

the Community of Queensferry, and extending in a north easterly direction to a point south east of the centre point of the existing trunk road north east of the north eastern bank of the River Dee, in the Community of Sealand to include a two way cycle track (with a right of way on foot) and Maintenance Access route integral to the A494 trunk road running along its south eastern side;

(b) the construction and improvement of highways and the provision of new means of access to premises between Queensferry Interchange and Garden City, in the said Communities in the said County, in pursuance of the Side Roads Order referred to in article 6;

(c) the improvement of the trunk road, in the said Communities in the said County;

(d) the execution of works on watercourses in connection with the construction of the new trunk road and the construction and improvement of other highways and the execution of other works mentioned above;

(e) the provision of buildings and facilities to be used in connection with the construction, use and maintenance of the trunk road;

(f) use by the Welsh Ministers in connection with such improvement of highways and the execution of other works mentioned above; and

(g) the mitigation of any adverse effects which the existence or use of certain of the highways proposed to be constructed or improved will have on the surroundings thereof in the said Communities and, in relation to the adverse effects which the existence of the new trunk road will have in removing and otherwise adversely effecting an existing habitat area on the banks of the River Dee, the provision of a replacement habitat area on the south west bank of the River Dee in the Communities of Shotton Town and Connah's Quay Town, all in the said County.

Copies of the Trunk Road Order and the Side Roads Order and the accompanying plans are deposited along with the map referred to in article 6 of this Order.

2.—(1) The land authorised to be purchased compulsorily under this Order is the land described in the accompanying Schedule and delineated and shown coloured pink edged red on the map prepared in duplicate and marked "The Welsh Ministers (The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494)

Queensferry i Garden City)) 2026".

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ag ymyl coch ar y map hwnnw.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddiben darpariaethau Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith sydd i'w adeiladu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd unrhyw bellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr iddo ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau, pa un bynnag yw'r mwyaf.

5. O'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol neu'r dyddiad y breinir unrhyw hawl newydd yn yr awdurdod caffael, pa un bynnag yw'r diweddaraf, bydd y tir y caffaelir yr hawl newydd drosto yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny i'r graddau y byddai parhau â hwy yn anghyson ag arfer yr hawl newydd honno.

6. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494);

ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r darn gefnffordd newydd sydd i'w hadeiladu yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;

ystyr "y Gorchymyn Cefnffordd" ("*the Trunk Road Order*") yw "Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 2026";

ystyr "y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" ("*the Side Roads Order*") yw "Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City) (Ffyrdd Ymyl) 2026"; ac

ystyr "y map" ("*the map*") yw'r map sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City)) 2026" ac wedi ei lofnodi gan un o swyddogion yr awdurdod caffael.

(Queensferry Interchange to Garden City Improvement)) Compulsory Purchase Order 2026".

(2) The new rights to be purchased compulsorily under this Order are described in the Schedule and the land is shown coloured blue edged red on the said map.

3. Parts II and III of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 are hereby incorporated with this Order subject to the modifications that references in the said Parts of the said Schedule to the undertaking shall be construed as references to the land authorised to be purchased and any buildings or works constructed or to be constructed thereon.

4. For the purpose of the provisions of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981, as incorporated in this Order, the prescribed distance in relation to any seam of minerals lying under land adjoining the works to be constructed upon the land described in the Schedule to this Order shall be such a lateral distance from the said works on every side thereof as is equal at every point along the said works to one half of the depth of the seam below the natural surface of the ground at that point or 37 metres whichever is the greater.

5. As from the date on which this Order becomes operative or the date on which any new right is vested in the acquiring authority, whichever is the later, the land over which the new right is acquired will be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject so far as their continuance would be inconsistent with the exercise of that new right.

6. In this Order:

"the map" ("*y map*") means the map marked "The Welsh Ministers (The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Queensferry Interchange to Garden City Improvement)) Compulsory Purchase Order 2026" signed by an official of the acquiring authority;

"the new trunk road" ("*y gefnffordd newydd*") means the length of new trunk road to be constructed pursuant to the Trunk Road Order;

"the Side Roads Order" ("*y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl*") means "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Queensferry Interchange to Garden City Improvement) (Side Roads) Order 2026";

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494)"; and

"the Trunk Road Order" ("*y Gorchymyn Cefnffordd*") means "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (River Dee Bridge Replacement) Order 2026".

7. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City)) 2026.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 5 Tachwedd 2026



Nicci Hunter
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

7. The title of this Order is The Welsh Ministers (The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Queensferry Interchange to Garden City Improvement)) Compulsory Purchase Order 2026.

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Date 5 November 2026



Nicci Hunter
Head of Governance and Assurance
Welsh Government